Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanedi

Heol Ebeneser
Llanedi
Pontarddulais
Abertawe
SA4 0FB

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanedi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanedi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 21 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 19 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | * |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 15/05/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae holl staff Ysgol Llanedi yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu profiadau cyfoethog a gwerthfawr i ddisgyblion yr ysgol. Mae eu cysylltiadau cryf â'r gymuned leol yn elfen nodedig o'u gwaith. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn ganolbwynt pwysig i'r pentref. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn aml mewn gwasanaethau a chyngherddau yn yr ardal leol, a hefyd yng nghystadlaethau'r sioe amaethyddol. Mae aelodau'r gymuned yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnig cymwynas, siarad â'r disgyblion neu fwynhau'r mabolgampau. Mae'r holl brofiadau yn sicrhau bod y disgyblion yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn i'w cynefin.

Mae'r pennaeth dros dro yn arwain gydag egni a gweledigaeth gadarn ar sail darparu'r profiadau gorau posibl i'r disgyblion. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn adnabod eu cryfderau yn dda ac yn blaenoriaethu gwelliannau'n  synhwyrol. Mae'r staff yn darparu cwricwlwm cyffrous, eang a chytbwys sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Maent yn adnabod bob disgybl yn dda. Golyga hyn eu bod yn sicrhau gwaith sy'n gosod her i bob unigolyn ar eu lefel unigol yn rheolaidd.

Mae medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau perthnasol a phwrpasol sy'n cynnal diddordeb disgyblion am gyfnodau estynedig. Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael adborth ysgrifenedig rheolaidd, ond nid yw effaith yr adborth bob amser yn effeithiol wrth gynorthwyo disgyblion i wella eu gwaith.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig o dda. Maent yn gofalu am ei gilydd yn ofalus yn y dosbarth ac ar yr iard, gyda'r disgyblion hŷn yn hynod ofalgar o'r rhai bach. Mae agweddau cadarnhaol y disgyblion tuag at y Gymraeg yn amlwg drwy'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rôl weithgar a chefnogol, gan sicrhau safonau uchel a chynaliadwy.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod adborth i ddisgyblion yn amserol a bod ganddynt gyfleoedd addas i wella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r pennaeth dros dro yn angerddol ac ymroddgar. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n gysylltiedig â darparu ystod eang o brofiadau cyfoethog i ddisgyblion er mwyn eu gwneud nhw'n ddysgwyr uchelgeisiol a galluog ac yn rhan annatod o'u cymuned. Mae hi'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda holl randdeiliaid yr ysgol. Mae'r tîm cyfan o staff a llywodraethwyr yn dilyn esiampl gadarn ac egnïol y pennaeth i gynnig y profiadau gorau posibl i'r disgyblion.

### Ciplun: Cysylltiadau cryf â'r gymuned leol sy'n elwa bob disgybl

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cryf a gwerthfawr â'i chymuned leol. Mae hi'n ganolbwynt i'r pentref ac mae'r holl staff yn sicrhau bod y disgyblion yn chwarae rhan bwysig ynddi. Maent yn elwa'n fawr o gymryd rhan yn rheolaidd mewn gwasanaethau yn yr eglwys, perfformio i'r henoed neu ganu carolau o gwmpas y goeden Nadolig. Mae diwrnod mabolgampau'r ysgol yn uchafbwynt y flwyddyn wrth iddynt gynnal y cystadlu yn yr hwyr er mwyn i cymaint o drigolion yr ardal fynychu â phosibl. Mae'r staff wedi creu cysylltiad buddiol â fferm gyfagos sy'n addysgu'r disgyblion am fywyd amaethyddol cefn gwlad. Mae'r staff yn gwahodd gwirfoddolwyr i'r ysgol yn flynyddol i gynorthwyo â chynnal a chadw'r adeilad a'r tir. Mae hyn i gyd yn hybu medrau cymdeithasol a pherfformio disgyblion, ynghyd â'u hunanhyder, ac yn sicrhau eu bod yn teimlo perthynas gryf â'u cymuned a'u milltir sgwâr.

Mae gan staff y disgyblion ieuengaf ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Mae nhw'n sicrhau eu bod yn darparu profiadau a heriau iddynt yn unol â'u gallu ac yn sicrhau cyfleoedd iddynt weithio'n  unigol, fel parau ac fel grŵp. Er y nifer cyfyngedig o ddisgyblion, mae'r staff yn sicrhau addysgeg dysgu sylfaen lwyddiannus. Mae'r staff yn adnabod bob disgybl yn dda, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn teilwra gweithgareddau'n fanwl er mwyn cyflwyno lefel briodol o her i bob un. Maent yn gweithio'n agos gyda'r teuluoedd ac mae eu cynlluniau datblygu unigol yn amlinellu'n glir anghenion y disgyblion ac yn cyfrannu at allu'r athrawon i gefnogi a darparu'n fwriadus ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Maent yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus ac aeddfed, gyda'r disgyblion sy'n derbyn rhan helaeth o'u haddysg yn y Gymraeg yn datblygu i fod yn rhugl yn y ddwy iaith. Mae gan y disgyblion sy'n cael y rhan fwyaf o'u haddysg yn Saesneg agwedd bositif tuag at yr iaith Gymraeg. Maent yn deall y rhan helaeth o gyfarwyddiadau yn Gymraeg ac maent yn ymateb yn briodol. Maent yn deall fod Cymraeg yn iaith fyw sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyd eu cenedl.

O dan arweiniad medrus y pennaeth, mae’r staff wedi cynllunio cwricwlwm eang a chynhwysfawr sy’n cefnogi’r disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau yn adeiladol mewn ystod o brofiadau cyfoethog. Maent yn sbarduno diddordeb disgyblion yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn cael ystod o brofiadau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol, fel cystadlu yn eisteddfod flynyddol yr Hendy. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion benderfynu ar yr hyn maent am ei ddysgu a’r ffordd fwyaf addas i gyflwyno eu gwaith. Serch hyn, mewn ychydig o weithgareddau, mae athrawon yn gorddibynnu ar ddefnyddio taflenni gwaith sy’n cyfyngu ar allu ychydig iawn o ddisgyblion i gyflawni’n uchel. Maent yn ystyried syniadau a barn disgyblion yn effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy’n gafael yn eu dychymyg, fel dewis llyfr am hanes un o drigolion y pentref mewn carchar rhyfel, yn hytrach na nofel draddodiadol. Mae’r staff yn sefydlu ymdeimlad o fwynhad mewn llyfrau o oedran ifanc ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn. Erbyn Blwyddyn 2, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o strategaethau ffoneg sy’n eu galluogi i adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Yn nosbarth y disgyblion hŷn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn ddeallus ac yn gynyddol gywir mewn cyd-destunau amrywiol yn Saesneg, ac mae’r disgyblion sy’n cael y rhan fwyaf o’u haddysg drwy’r Gymraeg yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith.

Mae'r staff yn sicrhau bod y rhan fwyaf o sesiynau dysgu yn symud ar rhediad addas, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Yn yr arfer orau, mae athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol er mwyn annog disgyblion i feddwl yn ddwys a dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith ac i’w drafod gyda’u cymheiriaid er mwyn adnabod agweddau i’w gwella. Mae’r athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig rheolaidd i ddisgyblion ac yn cynnig adborth llafar achlysurol. Er hyn, mae effaith yr adborth yn amrywio ac nid yw bob amser yn effeithiol wrth gynorthwyo disgyblion i wella eu gwaith.

Mae medrau ysgrifennu’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn ar draws yr ysgol. Mae staff y disgyblion ieuengaf yn darparu llawer o gyfleoedd iddynt ddatblygu ac ymarfer eu medrau modur mân a mawr yn llwyddiannus. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau creu marciau yn bwrpasol wrth iddynt ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar. Pan maent yn barod i wneud hynny, maent yn dysgu ystod gynyddol o lythrennau ac yn arbrofi wrth eu cyfuno i greu geiriau syml. Mae medrau ysgrifennu llawer o’r disgyblion ieuengaf yn gadarn. Mae llawer o’r disgyblion hynaf yn ysgrifennu gydag annibyniaeth gynyddol. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn datblygu’n ysgrifenwyr aeddfed mewn sawl ffurf gan ddefnyddio iaith a geirfa fwyfwy goeth wrth ystyried eu cynulleidfa. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr i ddwyn perswâd ar aelod o’r Senedd i’w helpu i fynd i’r afael â gyrwyr cyflym drwy eu pentref.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol ac yn eu cymhwyso’n effeithiol mewn profiadau wedi eu paratoi’n gelfydd gan y staff. Yn nhymor yr haf, mae’r disgyblion yn gwneud y mwyaf o ardd yr ysgol wrth fesur, pwyso a chymharu llysiau cyn eu medi a’u defnyddio i’w coginio neu eu dosbarthu i fanc bwyd lleol. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gryf. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dod yn ymwybodol o oed ifanc sut mae teclynnau digidol yn effeithio ar eu bywydau. Er enghraifft, mae bron bob un yn defnyddio cod QR yn annibynnol i gael mynediad at glipiau fideo maent wedi eu recordio. Mae’r disgyblion hŷn yn datblygu medrau digidol hynod gadarn ac yn eu cymhwyso’n llwyddiannus, er enghraifft wrth greu collage digidol i ymateb i’w hymchwil ar dechneg pwyntiliaeth Georges Seurat. Mae’r staff yn hybu creadigrwydd y disgyblion drwy’r ysgol. Maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol iddynt yn rheolaidd i arbrofi a chreu, i fyfyrio ac i addasu, gyda chelf a cherddoriaeth. Mae staff yn darparu’n hynod effeithiol ar gyfer datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Maent yn manteisio’n aml ar arbenigedd ymwelwyr i’r ysgol ac ar ymweliadau y tu allan i adeilad yr ysgol. O ganlyniad, mae gan y disgyblion barch at eraill ac maent yn arddangos ymddygiad positif tuag at ei gilydd a’u gwaith.

Mae’r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwerthuso cryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu yn rheolaidd ac yn bwrpasol. Mewn cydweithrediad â’r staff, mae’n rhoi prosesau gwella synhwyrol ar waith sydd fel arfer yn arwain at welliannau cynaledig dros gyfnod. Mae gan y corff llywodraethol rôl hanfodol mewn cefnogi a herio arweinyddiaeth yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn trefnu gweithgareddau gwerthchweil i ddod i adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn siarad â disgyblion, yn craffu ar waith ac yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd gyda ffocws cryf ar agweddau o’r cwricwlwm. Mae’r llywodraethwyr yn gofalu am les staff gan sicrhau eu bod yn weledol yn yr ysgol ac yn holi’n rheolaidd amdanynt. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am safonau’r disgyblion a’r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Maent yn ymwybodol o’r gyllid ac yn effro i heriau bod yn ysgol fach. Maent yn gyfaill beirniadol effeithiol i’r ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025